

Pecyn Etholiad Lleol

Bydd y pecyn hwn yn eich helpu i gynnal etholiad yn eich dosbarth

Y System Bleidleisio

Y Cyntaf i'r Felin

Dros Bwy Rwyf Yn Pleidleisio?

Cynghorydd i gynrychioli eich ward ar y cyngor lleol.

Sut i bleidleisio

Darllenwch y cyfarwyddiadau ar gyfer cwblhau'r papur pleidleisio'n ofalus bob amser, hyd yn oed os ydych chi wedi pleidleisio o'r blaen.

Mae'r papur pleidleisio'n rhestru enw pob ymgeisydd, ynghyd ag enw neu ddisgrifiad eu plaid, logo'r plaid a'u cyfeiriad.

Yn syml, rhowch X (croes) wrth ymyl yr ymgeisydd yr hoffech chi bleidleisio drosto/drosti. Os ydych chi'n gwneud camgymeriad, gallwch chi ofyn i'r staff pleidleisio roi papur pleidleisio arall i chi. Efallai y byddwch chi hefyd yn pleidleisio mewn etholiadau eraill ar yr un diwrnod.

Pwy Sy'n Cael Eu Hethol?

Yr ymgeisydd sydd â'r mwyafrif o bleidleisiau sy'n cael eu hethol; nid oes angen iddyn nhw gael mwy na hanner y pleidleisiau a fwriwyd. Os oes pleidleisiau cyfartal, dewisir ymgeisydd drwy dynnu ar hap (h.y. dull dewis ar hap fel taflu ceiniog neu dynnu enw allan o het).

Adnoddau

- Templed rhosglwm a templed maniffesto ar gyfer eich plaid
- papurau balot ar gyfer eich etholiad



Dangoswch eich cefnogaeth i'ch plaid drwy wneud rhosglwm.

Mae gwisgo eich rhosglwm yn lliw eich plaid yn ffordd wych o ddangos eich cefnogaeth i'ch plaid a'i hymgeisydd. Dylai pob aelod o blaid gael un! Rosette template

Dyma beth fydd ei angen arnoch i wneud rhosglwm:

–Templed o rhosglwm.

–Papur lliw

–Pinnau ffelt lliw

–Siswrn

–Glud

–Pin cau neu felcro

01. Copiwch y templed ar bapur lliw neu lliwiwch y siapiau gan ddefnyddio'r pinnau ffelt lliw neu baent.

02. Torrwch allan y cylch lleiaf a rhowch logo eich plaid ac enw eich ymgeisydd arno.

03. Torrwch allan y siapiau eraill a gludwch ben lleiaf y siapiau bach i'r cylch mawr.



04. Gludwch y ddau siâp hir (neu gallwch ddefnyddio rhuban) i gefn y cylch mawr.

05. Gludwch y cylch bach i ganol y cylch mawr.

06. Rhowch y pin cau neu'r felcro ar y cefn.



Templed rhosglwm



Creu Maniffesto

Rhestr o syniadau ynglyn â'r hyn yr hoffech chi weld eich cyngor lleol yn llwyddo i'w wneud yw maniffesto.

Os cawn ein hethol mae y blaid hon yn addo:

Er mwyn gwella ein cymuned rydym am:

Er mwyn gwella ein amgylchedd rydym am:

Er mwyn gwella adnoddau ein hysgol rydym am:

Er mwyn gwella yr hyn yr ydym yn ei fwyta rydym am:



Etholiadau Llywodraeth Leol Papur Ballot / Local Elections Ballot Paper

Pleidleisiwch dros un ymgeisydd yn unig / Vote for one candidate only

Marciwch X mewn un blwch / Mark an X in one box.

1	Y Blaid Goch The Red Party		
2	Y Blaid Werdd The Green Party		
3	Y Blaid Las The Blue Party		
4	Y Blaid Felyn The Yellow Party		
5	Y Blaid Binc The Pink Party		

